



UNED 3 – Byth ac Erioed

Gramadeg

BYTH

byth - mae'r weithred yn parhau. (*The action continues.*)

Rydyn ni'n defnyddio "**byth**" yn lle "**ddim**". (takes the place of **ddim**.)

Rydyn ni'n defnyddio "**byth**" gyda'r presennol, y dyfodol a'r amherffaith i ddweud am **rywbeth sydd byth yn digwydd** (*something that never happens*) e.e.

amser presennol -dydw i	<i>Dydw i byth yn nofio yn y môr yn y gaeaf.</i>
amherffaith -roeddwn i	<i>Doeddet ti byth yn gwneud dy waith.</i>
dyfodol -bydda i	<i>Fydd hi byth yn bwyta bwyd Indiaidd.</i>
amodol -baswn i	<i>Fasen nhw byth yn gweithio'n hwyr.</i>

Rydyn ni'n defnyddio "**byth**" hefyd gydag amser gorffennol / perffaith / gorberffaith i gyfleu (*to convey*) **dydy'r weithred ddim wedi gorffen** e.e.

- Dydyn nhw byth wedi gorffen. (*They still haven't finished.*)
- Welodd e mo'r ffilm byth. (*He still hasn't seen the film.*)

ERIOED

erioed - mae'r weithred wedi dod i ben. (*The action has ended.*)

Rydyn ni'n defnyddio "**erioed**" gyda'r gorffennol i ddangos rhywbeth sydd ddim wedi digwydd o gwbl (*something that has never happened*) e.e.

gorffennol	<i>Wnes i erioed wyllo ffilm arswyd. Ddywedodd e erioed hynny!</i>
perffaith - wedi	<i>Dydyn nhw erioed wedi bwyta cig. Wyt ti wedi bod yn Llundain erioed?</i>



Adolygu

Meddyliwch am y pethau yma :

- Beth yw eich hoff dasg yn y gwaith?
- Beth dych chi ddim yn hoffi wneud yn y gwaith?
- Tasech chi'n gallu gwneud unrhyw swydd (*job*) yn y byd, beth fasech chi'n hoffi wneud?
- Beth fasai eich swydd waetha yn y byd? (*worst job in the world?*)

Edrychwch ar y cwestiynau yma. Sut fasech chi yn ateb bob un? :

1. Ydych chi'n cael cinio yn y ffreutur yn aml?	
2. Ydy'r coffi'n rhad yn y coleg?	
3. Oes digon o leoedd parcio yn y gwaith?	
4. Fasech chi'n hoffi newid swydd?	
5. Ydych chi'n hoffi ceir trydan?	
6. Fydd y campws yn agor ym mis Medi?	




Byth

Dw i'n byth yn gweithio ar ddydd Sul.	<i>I never work on Sunday.</i>
Dw i byth yn yfed te.	<i>I never drink tea.</i>
Dw i byth yn mynd i'r sinema.	<i>I never go to the cinema.</i>
Dw i byth yn siopa ar y we.	<i>I never shop online.</i>

Tasg 1

Edrychwch ar y chwe brawddeg yma.
Ydyn nhw'n wir amdanoch chi? (*true about you?*) Beth am eich teulu a'ch ffrindiau?
Llenwch y tabl amdanoch chi a 3 pherson arall.



Dw i byth yn hwyr i'r gwaith.

Dw i byth yn gyrru i'r gwaith.

Dw i byth yn gorffen gwaith yn gynnar.

Dw i byth yn anghofio talu am rywbeth.

Dw i byth yn dweud celwydd.

Dw i byth yn cwyno.

Faint o bobl sy'n...?	Ydw, yn aml.	Ydw, weithiau.	Nac ydw, byth.
hwyr i'r gwaith?			
gorffen yn gynnar			
dweud celwydd			
gyrru i'r gwaith			
anghofio talu am rywbeth			
cwyno			



Faswn i byth

Faswn i byth yn anghofio pen-blwydd.	<i>I would never forget a birthday</i>
Faswn i byth yn torri corneli.	<i>I would never cut corners.</i>
Faswn i byth yn betio.	<i>I would never bet.</i>
Faswn i byth yn cysgu trwy larwm.	<i>I would never sleep through an alarm.</i>

Tasg 2

Meddylwch am 5 person enwog (*famous*), neu 5 person rydych chi'n nabod yn dda. Beth fasai eu hatebion i'r cwestiynau yma? Rhowch tic ☒ yn y bocs cywr.

Faset ti'n...?	Baswn.	Efallai.	Na faswn, byth.
dweud celwydd?			
copïo gwaith person arall.			
rhoi cyflog mis i elusen.			
cuddio wrth y bós.			
rhedeg yn dy awr ginio.			





Erioed

Wyt ti wedi bod yn y dderbynfa erioed?	<i>Have you ever been to reception?</i>
Wyt ti wedi bod i'r cinio gwaith erioed?	<i>Have you ever been to the work dinner?</i>
Dych chi wedi canu carioci erioed?	<i>Have you ever sung karaoke?</i>
Dych chi wedi cael cyfweiliad anodd erioed?	<i>Have you ever had a difficult interview?</i>

Dw i erioed wedi bod yn swyddfa'r bós.	<i>I have never been to the boss' office.</i>
Dw i erioed wedi ysgrifennu llythyr cwyno.	<i>I have never written a letter of complaint.</i>
Dw i erioed wedi cysgu wrth y ddesg.	<i>I have never slept at the desk.</i>
Dw i erioed wedi cael stwr!	<i>I have never had a row!</i>

Cwyno

Darllenwch y ddwy ddeialog yma am gwyno mewn gweithe
(*complaining in a workplace*).



Cwyno mewn bwyty

A	Pnawn da. Ga i'ch helpu chi?
B	Dw i eisiau siarad gyda'r rheolwr.
A	Iawn. Beth sy'n bod?
B	Dw i ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth, ac mae'r bwyd yn oer.
A	O diar. Dydy hynna ddim yn dda. Wna i alw'r rheolwr nawr.
B	Diolch yn fawr.




Cwyno mewn siop

- | | |
|---|--|
| A | Helo. Ga i'ch helpu chi? |
| B | Ces i'r crys yma'n anrheg. Dydy e ddim yn fy ffitio i. Ac hefyd, dw i ddim yn hoffi'r lliw pinc. |
| A | Ydy'r dderbynneb gyda chi? |
| B | Nac ydy. |
| A | Mae'n ddrwg gyda fi. Os does dim derbynneb gyda chi, alla i ddim rhoi arian nôl i chi. Ond allwch chi ddewis dilledyn arall. |
| B | Ond dydw i ddim yn hoffi eich dillad chi. Mae'r dillad yma'n henffasiwn. Dw i eisiau arian yn ôl. |
| A | Wel, dydy hynna ddim yn bosib. Mae'n ddrwg gyda fi. |

Tasg 3

Dychmygwch (*imagine*) bod cwyn wedi digwydd yn eich gweithle. Ysgrifennwch ddeialog fel y ddau uchod i ddisgrifio beth ddigwyddodd.



--	--



Cwyno - Ymarfer Gwrando

Gwrando -
Cwyno (t.30/31)



Ewch i'r ymarfer 'Gwrando' ar dudalen
'Canolradd - Uned 3' ar wefan Dysgu Cymraeg (chwiliwch am y tab
uchod) - [https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/adnoddau-
digidol/canolradd/](https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/adnoddau-digidol/canolradd/)

Gwrandewch ar y sgwrs ac atebwch y cwestiynau :

Cwestiynau

1. Pam roedd Mrs Jones yn hapus i adael i'r peintwyr ddod i mewn i'r tŷ?

2. Beth anghofiodd hi ei gael gan y peintwyr?

3. Beth oedd achos y tân?

4. Pam doedd hi na'i gŵr ddim eisiau gwneud y gwaith eu hunain?

5. Beth oedd yn dda am sut gwnaeth y dynion y gwaith?

6. Beth oedd yn bod ar y diwedd?

7. Pam wnaeth y dynion **ddim** peintio'r gegin eto?

8. Sut mae Mrs Jones yn mynd i ffeindio'r dynion?

9. Dych chi'n clywed **cwmni peintio** yn y darn. Pa eiriau eraill sy'n gallu mynd ar ôl cwmni?

cwmni cwmni

cwmni cwmni



Tasg 4

Darllenwch y llythyr cwyno yma, a llenwch y bylchau.

..... Gyngorydd Jones

Rhaid i fi ysgrifennu chi i gwyno am y problemau parcio yn y dref – mae'n ofnadwy ac yn mynd o ddrwg i waeth. Does neb yn hapus i dalu £1.50 yr awr i barcio yn y parcio. Felly, mae pawb yn ceisio parcio yn y stryd, ar y llinellau dwbl hyd yn oed. Mae'n broblem yn ystod y a gyda'r nos pan fydd pawb yn dod i brynu sgloodion, pitsas gyrri.

Felly, dw i'n cwyno achos dw i ddim yn parcio o flaen fy nhŷ i. Ond dw i hefyd yn poeni bydd damwain achos mae'n anodd croesi'r Os chi'n dda, ydy hi'n bosib meddwl eto am eich polisi chi o godi £1.50 yr awr i barcio?

..... chi'n creu problemau mawr i'r dre.
neb eisiau dod i siopa yma achos y problemau parcio.

Dw i'n deall ei hi'n anodd i'r cyngor ar hyn o bryd a dw i ddim yn hoffi cwyno, ond os gwelwch chi'n dda, gwnewch rywbeth i'n helpu ni cyn bydd hi'n rhy hwyr.

Yn gywir

.....



Geirfa

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
damwain/damweiniau	accident/s
derbynneb/ derbynebaw	receipt/s
ffilm/iau arswyd	horror films

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
car/ceir trydan	electric car/s
celwydd/au	lie/s
cyflog/au	salary/salaries
dilledyn/dillad	item of clothing/clothes
elusen/nau	charity/charities
ffreutur	canteen
lle/oedd parcio	parking space/s

Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
copio	to copy
cuddio	to hide
cwyno	to complain